OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2014 Rhif 2233 (Cy. 216)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd i Ffin Cymru/Lloegr, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Awst 2014* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno, neu gerllaw iddo.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd i Ffin Cymru/Lloegr, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro) 2014.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, a chan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 21:00 o'r gloch ar 1 Medi 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o'r gefnffordd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn. (2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Awst 2014

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o gychwyn trwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd, i ffin Cymru/Lloegr.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lleogr at ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd.

iii) Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd a'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd.

## ATODLEN 2

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.8 cilometr i'r de o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd, hyd at gychwyn trwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd.